GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Cyngor Rhwyd Ddiogelwch Plant

## TAFLEN RHWYD DDIOGELWCH AR ÔL RHYDDHAU O'R ADRAN ACHOSION BRYS PEDIATRIG (CEAU)

Mae eich plentyn wedi cael ei asesu gan dîm yr Adran Achosion Brys Pediatrig ac maent yn ddigon iach i ddychwelyd adref ar yr adeg hon. Parhewch i fonitro eich plentyn gartref. Mae disgwyl iddynt barhau i wella.
Os yw cyflwr eich plentyn yn gwaethygu neu os ydych yn poeni, dychwelwch i'r Adran Argyfwng Pediatrig (CEAU) yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, oherwydd efallai y bydd angen ail asesiad clinigol ar eich plentyn. Ni all staff Nyrsio a staff Meddygol roi cyngor penodol dros y ffôn. Peidiwch â mynychu'r Uned Mân Anafiadau.

**Nodweddion i gadw llygad allan amdanynt gartref yn dilyn rhyddhau:**

- Anadlu llafurus/cyflym neu'n gweithio'n galed i anadlu, gan dynnu'r cyhyrau o dan rhan isaf eu hasennau, eu gwddf neu rhwng eu hasennau i mewn
- Sŵn anadl cras wrth iddynt anadlu i mewn (stridor) pan fyddant wedi cynhyrfu
- Maent yn ymddangos yn ddadhydredig ac nid ydynt wedi pasio wrin am 12 awr
- Syrthni (rhy gysglyd)
- Poen parhaus yn yr abdomen yn enwedig os yw'r poen yn gysylltiedig â thwymyn a theimlo'n sâl yn gyffredinol

**Os ydych yn pryderu o gwbl am eich plentyn, cysylltwch â'r Adran Achosion Brys - Ysbyty Athrofaol y Faenor: Rhif Ffôn 01633 493287)**

**Os gwelwch unrhyw un o'r nodweddion canlynol bydd angen cymorth brys arnoch (ffoniwch 999)**

- Anawsterau anadlu, ee yn cael seibiannau yn eu hanadl (apnoeas); neu batrwm anadlu afreolaidd neu gruntio; mae sŵn cras i’w hanadl wrth iddynt anadlu i mewn (*stridor*) sy’n bresennol drwy'r amser (hyd yn oed pan nad ydynt wedi cynhyrfu) neu maent yn rhy fyr o wynt i siarad / bwyta neu yfed
- Mynd yn las o amgylch y gwefusau
- Mynd yn welw, yn frith, neu'n teimlo'n anarferol o oer i'w cyffwrdd
- Yn cael ffit
- Cynhyrfu’n ddifrifol (crio /anhapus iawn ac ni ellir eu cysuro) neu'n mynd yn ddryslyd
- Yn swrth iawn (anodd eu deffro)
- Yn datblygu brech nad yw'n diflannu gyda phwysau (y prawf gwydr)
- O dan 1 mis oed gyda thymheredd o 38.0 C neu uwch

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**